

Sul Heddwch

Darlleniad 1: Eseia 2:4
Darlleniad 2: Eseia 11: 6-9

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ac ‘a wnaethost o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswyllo ar holl wyneb y ddaear’, dyro ysbryd heddychol yn ein calonnau. Gwared ni rhag pob rhagrith wrth inni dy alw’n Dad, a’r un pryd anghofio ein bod yn frodyr a chwiorydd i’n gilydd. Maddau inni ein hunanoldeb fel cenhedloedd, a’r tueddiad sydd ynom i gael ein tynnu oddi wrth y datguddiad ohonot fel Tad pan fo gwleidyddion yn anghytuno â’i gilydd.

Ynghanol anawsterau ein dyddiau, cadw ein serch atat ti dy hunan. Dysg ni drwy ffolineb a thrasiedi y gorffennol na all casineb a lladd feddi heddwch, ac na all arfau dinistriol gynaeafu tangnefedd. Planna yn ein calonnau fel pobloedd y byd yr egwyddorion hynny sydd yn dy natur di i’n gwneud yn gariadlawn, yn faddeugar ac yn frawdol.

Dysg ni i barchu ein cyfrifoldeb i baratoi byd dedwyddach ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, fel na bo anwireddau’r tadau yn disgyn ar dy blant. Dysg ni i sylweddoli mai gwell yw inni garu ein gilydd na chasáu ein gilydd.

Maddau inni, O! Dduw, fod ein byd yn dal i gredu mewn grym dinistr, ac mewn chwalu ac achub y blaen. Rho ras inni bob un i blygu mewn maddeuant a chymod o flaen ein gilydd, ac o’th flaen di, o gofio:

- am y cynnwrf a’r terfysg mewn trefi a gwledydd a fu yn y newyddion yn ddiweddar;

- y brwydrau cymdeithasol a chyhoeddus, cenedlaethol a lleol sy’n gonsýrn inni;

- am y cartrefi sy'n adfeilion, a'r plant a'u hanwyliaid wedi eu lladd;
- am y plant sy'n byw mewn ofn, chwerwder a drwgdybiaeth, ac sy'n cael eu dysgu yn gynnar i ddal dryll yn eu llaw.

Pâr inni sylweddoli fod pob cenedl yn gyfwerth yn dy olwg di er gwaethaf lliw a llun, sect a safle, economeg a datblygiad, a bod gan bob cenedl, pob unigolyn, hawl foesol i ryddid, cyfiawnder a heddwch.

Rho gymod a thangnefedd, gwasgara'r rhai mae'n dda ganddynt ryfel, ac arwain ni i wisgo dy arfogaeth di yn erbyn y drwg - 'gwirionedd yn wregys am ein canol, a chyfiawnder yn arfwisg ar ein dwyfron, a pharoddrwydd i gyhoeddi efengyl tangnefedd yn esgidiau am ein traed, tarian ein ffydd, iachawdwriaeth yn helm, a'r Ysbryd, sef Gair Duw, yn gleddyf'. Cynorthwya ni, yn dy gariad, i sicrhau cyfiawnder, maddeuant a chymod, fel y daw'r byd i wirionedd, bywyd a heddwch.

Llanw ni ag ysbryd y Crist, fel y byddwn o wirfodd calon yn rhannu bendithion dy gariad â holl drigolion y ddaear. Una dy blant mewn heddwch trwy Iesu Grist, ein tangnefedd ni, yr hwn a wnaeth y ddau yn un, gan gymodi'r ddau â Duw yn un corff trwy'r Groes. Amen.

Graham Floyd